

Dr Sharif
Canolfan Feddygol Albany
Llawr 1^{af} 13 Stryd y Farchnad
Pontypridd
CF37 2ST

Ffôn: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8388
E-bost: HIWinspections@wales.gsi.gov.uk

9 Gorffennaf 2014

Annwyl Dr Sharif

Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Chanolfan Feddygol Albany, Pontypridd ar 7 Gorffennaf 2014.

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Chanolfan Feddygol Albany, Pontypridd ar 7 Gorffennaf 2014.

Cefndir

Roedd yr ymweliad arolygu'n canolbwyntio ar ddadansoddi ystod o ddogfennaeth, trafodaeth gyda'r Rheolwr a thaith o amgylch y safle.

Cafodd y clinig ei gofrestru gyntaf ar 29 Rhagfyr 2008 ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu cyngor a thriniaeth rheoli a gostwng pwysau gan ymarferwyr meddygol ar gyfer cleifion sy'n ddeunaw oed a throsodd.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion ar gael yn yr ystafell aros ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, roedd angen mewnosod y dyddiad adolygu a chyfeiriad newydd AGIC yn y ddwy ddogfen. Cafodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gopïau o'r dogfennau diwygiedig ar 8 Gorffennaf 2014.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer cleifion ar gael yn yr ardaloedd aros ac roedd pob claf yn cael gwybodaeth am fwyta'n iach a gostwng pwysau fel rhan o'u cynllun triniaeth.

O ran bodlonrwydd cleientiaid ar y gwasanaeth a ddarperir, roedd gwybodaeth ar gael a hysbyswyd yr adolygwyr fod cleientiaid yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

gael. Roedd dadansoddiad o'r holiaduron hyn ar gyfer cleifion yn cael ei gynnal yn flynyddol a gwelwyd fod canlyniadau'r rhain yn dda. Roedd blwch sylwadau yn yr ystafell aros hefyd ac roedd cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar lafar ar adeg y cyswllt â'r clinig. Bu rhai sylwadau am brisiau ac oriau agor ac mae cynllun gweithredu i wella'r olaf o'r rhain wedi cael ei ddatblygu. Hysbyswyd yr adolygwyr na chafwyd unrhyw gwynion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fe edrychwyd ar gofnodion cleientiaid ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am hanes meddygol, ffurflenni cydsynio a threfnau triniaeth a'r wybodaeth honno'n cael ei diweddarau yn ystod pob ymweliad. Fodd bynnag, nodwyd fod un ffurflen yn eisiau, sef gwybodaeth am Fynegai Màs y Corff (BMI). Mae'r wybodaeth hon yn rhan o'r cynllun triniaeth a thrafodwyd yr angen am gofnodion cyflawn ar adeg yr arolygiad.

Roedd yr holl bolisiau'n bresennol ac roedd tystiolaeth bod staff anfeddygol wedi llofnodi i ddweud eu bod wedi darllen y rhain ac y byddent yn ymlwyn wrthynt. Trafodwyd yr angen i staff meddygol wneud yr un modd ar adeg yr arolygiad.

Gwelwyd cofnodion o addysg orfodol gan gynnwys Tân, rheoli data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, iechyd a diogelwch, rheoli heintiau a chodi a chario ac ymdrin â digwyddiadau anffafriol ar gyfer staff meddygol a hysbyswyd yr adolygwyr fod staff eraill wedi cael hyfforddiant gorfodol ond nid oedd cofnodion yn cael eu cadw. Trafododd yr adolygwyr yr angen i gadw'r cofnodion hyn ar adeg yr ymweliad.

Adolygwyd ffeiliau staff a chanfuwyd nad oedd manylion digonol ynddynt o ran ffotograffau o staff a gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB/DBS). Roedd system ar gyfer arfarniad blynyddol a gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd cynllun archwilio clinigol a oedd yn gysylltiedig ag arolygon canlyniadau cenedlaethol a chaiff y rhain eu cynnal yn flynyddol. Cafodd canlyniadau'r cynllun eu hadolygu ar adeg yr arolygiad. Roedd arfer seiliedig-ar-dystiolaeth yn bodoli a hwnnw'n dilyn canllawiau NICE ar gyfer rheoli pwysau.

Roedd asesiadau risg yn bodoli. Roedd system ar gyfer rheoli meddyginiaeth a oedd yn cynnwys cofnodi gweddillion stoc a phresgripsiynau cleifion. Roedd archwiliad o'r prosesau hyn yn cael ei gynnal bob pythefnos.

Y Safle, y Cyfleusterau a'r Amgylchedd

Roedd y safle cofrestredig wedi'i leoli mewn dwy ystafell yn y rhan flaen ar y llawr cyntaf mewn adeilad pedwar llawr yng nghanol Pontypridd.

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Roedd rhannau amrywiol o'r adeilad wedi'u gosod i denantiaid gwahanol.

Roedd yr ystafelloedd cofrestredig yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol, ond mynegwyd pryderon ynghylch digonolrwydd ffenestri isel yn y dderbynfa, y gallai plant ddod i mewn iddi o bosib.

Mae dogfennau cymeradwy presennol (rheoliadau adeiladu) yn ei gwneud yn ofynnol i waith ar adeilad presennol gydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn y rheoliadau adeiladu. Wrth osod ffenestr grom bren newydd dylid bod wedi defnyddio gwydr diogelwch ar gyfer y cwarelau isaf, ac nid yw'n ymddangos bod y datganiadau angenrheidiol wedi'u hysgythru ar bob cwarel o fewn 800m i lefel y llawr. Hefyd, dylid asesu risg ffenestri isel eraill a rhoi unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol ar waith, yn enwedig pe bai plant bach yn mynd ar eu cyfyl.

Roedd cyfleusterau eraill megis y toiled a'r gegin wedi'u lleoli mewn ardaloedd cymunol a reolir gan y landlord. Gwnaed sylwadau ynghylch glendid cyffredinol yr ardaloedd hyn, a diffyg unrhyw oleuadau artifisial yn y gegin.

Roedd yr adeilad wedi cael ei godi gydag un staer ganolog, ac nid oedd y tenant presennol yn ymwybodol o unrhyw ddihangfa arall pe bai tân. Mae'r trefniant hwn o ran bod ag un staer yn golygu ei bod yn ymddangos mai dyma'r unig ffordd o adael yr adeilad pe bai tân.

Heblaw am un arwydd ar ffurf saeth werdd, nid oedd unrhyw arwyddion yn cael eu harddangos i ddynodi ble'r oedd y ddihangfa, ac nid oedd unrhyw hysbysiadau ynglŷn â gadael yn ystod tân a oedd yn rhoi manylion unrhyw fannau ymgynnull y tu allan i'r adeilad. Gwelwyd fod y pwynt torri gwydr i ganu'r larwm tân ar bwys y man ymadael terfynol yn ddiffygiol.

Mae canllawiau Iechyd a Diogelwch a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (diogelwch tân) yn hysbysu bod rhaid i gyflogwyr (ac/neu berchnogion neu feddianwyr adeiladau) gynnal asesiad risg diogelwch tân a'i gadw'n gyfredol. Mae'r asesiad yn seiliedig ar yr un dull ag asesiadau risg Iechyd a diogelwch a gellir ei gynnal naill ai fel rhan o asesiad risg cyffredinol neu fel ymarfer ar wahân.

Er mwyn diogelwch y safle cofrestredig, o fewn yr adeilad ar cyfan, dylid dangos copi o Asesiad Risg Tân cyfredol ar gyfer yr adeilad cyfan, neu ddangos copi o'r adroddiad ar yr archwiliad diwethaf gan y Gwasanaeth Tân Lleol. Efallai yr hoffai'r landlord hefyd ystyried y nwyddau a silindrau fflamadwy sy'n cael eu storio ar hyn o bryd ar ben y grisiau ar yr ail lawr. Anfonwyd cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y

rheolwr cofrestredig at AGIC ynghylch gweithredu'r asesiad risg tân a'r adolygiad o'r ardal storio.

Er y derbynnir bod gan Glinig Colli Pwysau Albany Bolisi Tân mewnol ar gyfer eu safle, roedd angen addasu hwn i adlewyrchu'r ffaith mai un staer sydd, a diffyg unrhyw ddarpariaeth o ran goleuadau argyfwng.

Roedd tystysgrif yr Ail Archwiliad Cyfnodol ar gyfer y gosodiad gwifrau trydanol wedi dod i ben ar 13 Rhagfyr 2013, ac roedd angen ailbrofi'r gosodiad.

Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael ar gyfer Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT). Er nad oes gofyniad cyfreithiol i gadw cofnodion o weithgareddau PAT, gall cofnodion ac/neu labelu fod yn erfyn rheoli effeithiol ar gyfer monitro effeithiolrwydd cynllun cynnal a chadw o'r fath. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn rhoi argymhellion ynghylch profion priodol ar gyfer dyfeisiau dosbarth 1 a dosbarth 2.

Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael o brofion wythnosol digonol a gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y Gosodiad Larwm Tân. Roedd diffoddwyr tân yn y lleoliad cofrestredig yn cael eu profi'n rheolaidd, ond o'r ddau ddiffoddwr a oedd wedi'u lleoli yn y lobi ar bwys y toiled, roedd un wedi'i gondemnio, ac nid oedd y llall wedi cael ei brofi ers 2008.

Roedd tystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar gael ar gyfer cynnal a chadw a phrofi'r boeler.

Agweddau Cadarnhaol

Amlygodd yr ymweliad feysydd nodedig ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r gofal yn berson-ganolog gyda phreifatrwydd, urddas ac unigolrwydd yn cael eu hystyried
- Roedd system ar gyfer archwilio clinigol ar waith a thystiolaeth bod newidiadau'n deillio o adborth gan gleifion ac adborth o archwiliadau

Pryderon:

- Mae angen diweddarau ffeiliau staff â'r wybodaeth gywir
- Canfuwyd fod gwybodaeth ar goll o gofnod un claf
- Diffyg Asesiad Risg Tân neu adroddiad Swyddogion Tân ar gyfer yr adeilad cyfan
- Diogelwch ffenestri yn y dderbynfa

- Dim copi cyfredol o dystysgrif gwifrau trydanol

Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn:

Camau Gweithredu sy'n Ofynnol	Rhif y Rheoliad
Mae angen diweddarau ffeiliau personél staff â ffotograffau o'r staff a'u statws CRB.	Rheoliad 20(1)(a)(b) a 20 (2) (a) (b)
Nid oedd unrhyw gofnodion eglur o hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff anfeddygol	Rheoliad 20(1)(a)(b) a 20 (2) (a) (b)
Mae angen adolygu a diweddarau'r Datganiad o Ddiben.	Rheoliad 8 Cwblhawyd 8.7.14
Adolygu'r Canllaw i Gleifion	Rheoliad 7 Cwblhawyd 8.7.14
Cofnodion cleifion i gael eu cwblhau	Rheoliad 23 (1)(a) 1.2.3
Mae angen llofnodion staff ar gyfer darllen a chydymffurfio â pholisïau	Rheoliad 9 (1) (g)
Sicrhau bod ffenestri newydd yn cydymffurfio â safonau perthnasol, ac asesu risg pob ffenestr isel arall	Rheoliad 26(2)(a)
Adolygu'r mesurau diogelwch ar gyfer dianc yn ystod tân o fewn yr adeilad	Rheoliad 26(4)(a)(b)(e)
Ailbrofi'r gosodiad gwifrau trydanol	Rheoliad 26(2)(a) Gweithredwyd 8.7.14

Camau Gweithredu sy'n Ofynnol	Rhif y Rheoliad
Cynnal profion wythnosol ar y larwm tân, a'i gynnal a'i gadw'n briodol yn unol â gofynion y system	Rheoliad 26(4)(a)
Adolygu dulliau o gynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy yn unol â Chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chynhyrchu polisi ar gyfer y drefn brofi	Rheoliad 26(2)(a)

Argymhellion Arfer Da:

Cynnal ffolder o gylchoedd profi gwasanaethau o fewn y safle.

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i bob aelod o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Cysylltwch â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



Phil Price
Rheolwr Arolygu